**Hannah Blythyn AS/MS**
**Y Gweinidog Partneriaeth Gymdeithasol**
**Minister for Social Partnership**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Delyth Jewell MS
Cadeirydd y Pwyllgor
Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg,
Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol

14 Mai 2024

Annwyl Delyth,

Yn ystod sesiwn dystiolaeth Llywodraeth Cymru ar yr **Ymchwiliad i'r heriau sy'n wynebu gweithlu'r diwydiannau creadigol yng Nghymru** ar 25 Mai 2023**,** gwnaed ymrwymiad i rannu adroddiad Arolwg Diwydiant Cymru Greadigol 2023 gyda'r pwyllgor pan fydd ar gael. Rwy'n ysgrifennu i gadarnhau fod yr adroddiad llawn bellach ar gael ac mae ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru . Mae canfyddiadau allweddol yr arolwg wedi'u nodi isod.

***Arolwg Diwydiant Cymru Greadigol 2023***

Cwblhawyd yr arolwg gan 639 o ymatebwyr, gyda chwarter (26%) o'r sectorau cerddoriaeth a digidol, 27% o'r diwydiant cyhoeddi a 21% o'r diwydiant sgrin. Roedd dros draean (37%) o'r ymatebwyr yn hunangyflogedig neu'n weithwyr llawrydd, ac roedd 41% yn berchnogion cwmnïau neu'n gyfarwyddwyr. Mae'r arolwg hwn yn dilyn yr Arolwg Llinell Sylfaen a gynhaliwyd yn 2022, gan ganiatáu cymariaethau rhwng blynyddoedd a helpu i nodi tueddiadau dros amser.

Mae'r canfyddiadau'n amlygu bod Cymru Greadigol yn chwarae rhan allweddol wrth gefnogi'r sector, yn enwedig o ran adferiad yn gysylltiedig a Covid-19 i fusnesau a gweithwyr llawrydd.

Mae'r prif ganfyddiadau yn cynnwys:

- Dywedodd y diwydiannau creadigol mai cymysg oedd eu profiadau o ran perfformiad eu busnesau, yn enwedig o ran newidiadau i'w trosiant – gwelodd chwarter y busnesau gynnydd o'i gymharu â'r flwyddyn ariannol ddiwethaf, profodd ychydig dros chwarter ohonynt (27%) ostyngiad, a nododd ychydig o dan hanner ohonynt (48%) nad oedd unrhyw newid.
- Priodolwyd newidiadau mewn trosiant i effeithiau parhaus Covid-19, fu yn gadarnhaol i rai, tra'n negyddol i eraill.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Hannah.Blythyn@llyw.cymru
Correspondence.Hannah.Blythyn@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

- Bod yn fwy proffidiol, gwella cyfleoedd marchnata, a bod yn fwy cynaliadwy yw'r tri blaenoriaeth allweddol uchaf ymhlith y sectorau. Mae datblygu'r gweithlu yn llai o flaenoriaeth nag yn 2022.
- Mae ymatebwyr yn fwy hyderus am wneud elw wrth redeg eu busnes y flwyddyn nesaf, er bod hyder, yn gyffredinol, ychydig yn is nag yn 2022. Y sector digidol oedd yn fwyaf hyderus am wneud elw wrth redeg eu busnesau, a'r sector cerddoriaeth oedd yn lleiaf hyderus. Mae gweithwyr llawrydd yn llai hyderus na chyflogwyr, gweithwyr a gyflogir a'r rheini sy'n hunangyflogedig.
- Roedd 31% o'r gweithwyr llawrydd wedi wynebu anawsterau wrth geisio dod o hyd i swyddi mewn rhai rolau. Nododd y rheini yn y sector sgrin a'r sector digidol yr anawsterau mwyaf (52% a 38%, yn y drefn honno) o gymharu â gweithwyr llawrydd yn y sector Cerddoriaeth (6%).
- Roedd 8% o fusnesau yn wynebu heriau wrth gadw staff. Cafodd 16% o fusnesau anawsterau wrth lenwi rolau penodol, gyda'r tri ffactor uchaf yn deillio o bobl yn symud i ffwrdd o Gymru am waith, bylchau sgiliau a chystadleuaeth gan gwmnïau eraill.
- Mae sgiliau a hyfforddiant yn parhau'n broblem i fusnesau a gweithwyr llawrydd fel ei gilydd, a'r meysydd mwyaf cyffredin lle gwelir bylchau o ran sgiliau yw sgiliau ar gyfer sectorau penodol (35%), sgiliau technolegol (32%) a gallu yn y Gymraeg (26%).
- Yn debyg i 2022, hoffai'r diwydiant weld rhagor o gymorth ariannol, mwy o gyfleoedd i rwydweithio, a gwell darpariaeth o ran cael gafael ar gymorth a chyngor busnes oddi wrth Cymru Greadigol.
- Mae gallu yn y Gymraeg yn gyson â chanfyddiadau 2022, gyda 18% o'r ymatebwyr yn rhugl yn y Gymraeg a 33% yn gallu siarad ychydig eiriau. Mae'r diwydiant Sgrin yn dangos y rhuglder uchaf (26%), tra bod y sector Digidol yn dangos y lefelau gallu isaf.

Mae canfyddiadau'r arolwg, yr ydym yn anelu at eu cynnal yn flynyddol, yn darparu gwybodaeth werthfawr i Cymru Greadigol a fydd yn llywio penderfyniadau ynghylch y ffordd orau o gefnogi'r sector. Mae'r cylch nesaf o gasglu data wedi'i drefnu ar gyfer Hydref 2024.

Yn gywir,



**Hannah Blythyn AS/MS**
Y Gweinidog Partneriaeth Gymdeithasol
Minister for Social Partnership